Adroddiad Blynyddol Y Corff Llywodraethol 2022-23

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn addysgol 2022-23.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

Aelod	**Cynrychioli**	**Tymor gwasanaeth**
Alaw Ceris (Cadeirydd)	Rhieni	2021-2025
Miriam Grant (Is-Gadeirydd)	Rhieni	2019-2023
Guto Glyn	Rhieni	2022-2026
Ian Goronwy Williams	AALl	2020-2024
Gwenllian Hughes	Cyngor Cymuned	2021-2025
James Evans	Cyfetholedig	2019-2023
Andrew Parry	Cyfetholedig	2020-2024
Greta Hughes	AALl	2022-2026
Gwyneth Lloyd Jones	Athrawon	2021-2025
Manon Haf Owen	Pennaeth	2022-2023

Cadeirydd:	Alaw Ceris, Y Boncan, Llanbedrog	alawc@ysgolllanbedrog.cymru
Clerc:	Iwan Hughes, Derlwyn, Llanbedrog	iwanh@ysgolllanbedrog.cymru

Swyddogaethau'r Llywodraethwyr
Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r cyfrifoldebau wedi cynyddu'n sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf.
Rhaid i'r corff gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond yn aml rydym yn cyfrafod ddwywaith y tymor.
Adroddodd y pennaeth yn dymhorol ar gyrhaeddiadau disgyblion a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, anghenion arbennig, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Mae'r corff wedi ei rannu yn is-baneli sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
Yn Ysgol Llanbedrog mae gennym Is-baneli Disgyblu a Diswyddo Staff, Apel Disgyblu a Diswyddo Staff, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Cwynion, Adolygu Tâl.
Miriam Grant oedd Llywodraethwr dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Alaw Ceris oedd y Llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant.

Gallwch gael gwybodaeth bellach am y gyllideb neu weld cofnodion yr holl gyfarfodydd drwy ofyn i'r Clerc.

Cynhelir etholiadau i ethol rhiant-lywodraethwr newydd pan ddaw'r cyfnodau uchod i ben. Bydd yr etholiadau nesaf yn nhymor yr Hydref 2023.

Dyddiadau Cyfarfodydd
Bu i'r Corff Llawn gyfarfod ar 20/9/22, 24/10/22, 14/12/22, 6/2/23, 20/3/23, 22/5/23.
Yn ogystal â hyn cynhaliwyd cyfarfodydd o'r gwahanol banelau.

Adroddiad ar weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hydref 2022.
Ni chynhaliwyd cyfarfod gan na ofynwyd am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan y rhieni.

TREFNIANT Y DOSBARTHIADAU MEDI 2022

Athrawon	M	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Mrs Sian Elfryn	11	18							29
Mrs Catrin Hall/ Miss Sera Jones			8	11					19
Mrs Gwyneth Jones					11	14			25
Mrs Manon Owen							12	9	21
									94 (83+11)
ADYaCh	2	1	2	1		1	2		9 (9.6%)
PYD				2		2		1	5 (5.3%)

PRESENOLDEB YSGOL GYFAN

Presenoldeb	=	93.2%
Abesnoldebau gydag awdurdod	=	6.7%
Absenoldebau heb awdurdod	=	0.2%

Targed presenoldeb y llywodraethwyr a Gwynedd oedd 95.5%. Pwysleisiwn yr angen am nodyn neu neges i egluro pob absenoldeb.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwysau mawr ar bob ysgol i godi presenoldeb ac i ddileu unrhyw absenoldeb di-awdurdod. Caiff cofrestr yr ysgol ei fwydo i system ganolog gan y Cyngor a rhaid i'r ysgol drafod unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Lles. Gweithredodd yr ysgol yn unol â'r gofynion.

DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2022-23

DYDDIADAU TYMOR:

1 Medi - 23 Rhagfyr
9 Ionawr – 31 Mawrth
17 Ebrill- 20 Gorffennaf

GWYLIAU:

31 Hydref -4 Tachwedd (Hanner-Tymor)
26 Rhagfyr - 6 Ionawr (Gwyliau'r Nadolig)
20 - 24 Chwefror (Hanner-Tymor)
3-14 Ebrill (Gwyliau'r Pasg)
1 Mai (Calan Mai)
29 Mai – 2 Mehefin (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst (Gwyliau'r Haf)

Bu dyddiau o hyfforddiant staff yn ychwanegol i'r uchod: 1+2/9/22, 17/2/23, 26/5/23, 16/6/23

SESIYNNAU'R YSGOL

Bore: 9:00a.m -12:00 p.m Prynhawn 12:50 3:00pm /3:15 p.m
Meithrin: 9:00 – 11:00 a.m

(Clwb Gwarchod: 8.10am, Clwb Brecwast: 8:30am, ysgol yn agor: 8.50am)

BLAENORIAETHAU'R CDY 2022-23

Nodir blaenoriaethau'r ysgol yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol (CDY), dogfen hynod bwysig y mae'r ysgol yn gweithio arni i geisio sicrhau ein bod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Mae'r Llywodraethwyr yn trafod elfennau yn eu cyfarfodydd ac yn monitro datblygiadau. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol hefyd yn derbyn copi o'r ddogfen hon. Dyma flaenoriaethau'r ysgol yn 2022-23 a bras disgrifiad o'r cyflawniadau.

Blaenoriaeth 1 Datblygu sgiliau Llafaredd a Darllen er mwyn gweld ei effaith gadarnhaol ar Ysgrifennu trawsbynciol ar draws yr ysgol (2 iaith)	• Wrth graffu, arsylwi a thrafod llyfrau mawr, gwelir ymwybyddiaeth dda iawn ar draws yr ysgol, ym mhob dosbarth, o ofynion CiG o ran cynllunio ac addysgu i datblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws yr MDPh. Mae'r dilyniant a datblygiad i'w weld yn glir a chanoladwy drwy'r ysgol. Gwelir cynnydd amlwg yn sgiliau ieithyddol y dysgwyr o ddosbarth i ddosbarth, ac unigolion o dymor i dymor. • Caiff cydweithio cadarn, gonest ac agored o fewn yr ysgol yn sicrhau rhannu arferion da a rhwystrau ddylanwad gadarnhaol iawn ar gynllunio, darpariaeth ac addysgu ar draws yr ysgol. Mae darparu hyfforddiant staff a rhennu cryfderau ac arferion da ac effeithiol mewn cyafrfodydd staff ac ymweliadau dosbarth yn sicrhau ein bod yn datblygu a symud yn ein blaenau fel uned. • Cynllunir a chyflwynir gweithgareddau llafar a darllen pwrpasol effeithiol yn gyson ym mhob dosbarth gyda hyn yn datblygu sgiliau sylfaenol cadarn y rhan fwyaf o ddysgywr. Gwleir fod y wybodaeth a'r sgiliau ddysgir drwy'r tasgau llafar a darllen eu defnyddio yn naturiol yn y tasgau ysgrifennu, gyda hynny'n cael effaith dda neu dda iawn ar safon a chyflawniad. O ganlyniad, cyflawnir tasgau ysgrifennu trawsbynciol gynyddol lwyddiannus a graenus gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gyda'r athrawon yn datblygu'n broffesiynol wrth fynd ati i ymchwilio ac arbrofi. Gwelir a theimlir datblygiad ar draws y flwyddyn gyda'r mwyafrif llethol o ddisgylion wedi datblygu gallu i weithio'n dda neu dda iawn, a hynny'n gynyddol annibynnol, ar dasgau iaith. • Mae cydweithio ac arbrofi ar strategaethau o fewn yr ysgol yn sicrahu dilyniant, cysondeb fydd yn datblygu ar draws continwwm addysg y disgyblion ac yn eu harfogi gyda sgiliau pwysig i'w defnyddio'n eang o fewn byd addysg a thu hwnt. Drwy hyfforddiant ysgol ganolog, rhannu arferion da mae'r holl staff wedi dod yn ymwybodol o gynnwys a gwerth yr ymchwiliadau. O ganlyniad i'r cydweithio a pharhau i arbrofi gwelir dilyniant a chysondeb, sydd yn codi safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu draws yr Ysgol. Mae'r tri llinyn ieithyddol yn cefnogi a phlethu i'w gilydd yn drawsbynciol. • Caiff Llais y Plentyn, Asesu ar Gyfer Dysgu a Meddylfryd o Dwf le creiddiol a pharhaus yn ein dysgu a'r addysgu gan ddylanwadu'n effeithiol ac effeithlon ar naws ac ethos holl ddosbarthiadau'r ysgol gan ddatblygu dysgwyr gweithgar, awyddus a mentrus. • Gwelwyd o gyflwyniadau a weithrediadau ar lawr dosbarth fod asesu ffurfiannol yn arf effeithiol er mwyn ymateb i gynnydd dysgwyr a'u symud yn eu blaenau yn barhaus. Penderfynwyd gweithio ar hyn ymhellach yn 2023-24 fel ymateb i ofynion CiG ac effaith cyfnodau Covid.
Blaenoriaeth 2: Datblygu gweithgareddau trawsbynciol eang tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn ymarfer ac ymestyn sgiliau ymhellach ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad	• Trwy trafodaethau proffesiynol, teithiau dysgu, edrych ar luniau a chraffu ar waith disgyblion fod gweithgraeddau amrywiol sydd yn cael eu cynnal ar draws yr ysgol. Cytunwud fod y Llyfrau Mawr yn ffordd effeithiol o fonitro, rhannu a coladu'r hyn sydd yn digwydd ar draws yr ysgol yn effeithiol, gan ddangos dilyniant a rhoi trosolwg cadarn, ond ar y llaw arall maent yn llafurus i'w creu, felly does dim pwysau ar athrawon i'w creu. • Trwy drafod cynlluniau, teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau gwelir bod adnabyddiaeth gynnyddol o ofynion y MAPh ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn ac yn gynyddol dda dros gydol y flwyddyn addysgol. Gwelwyd bod themau trawsbynciol, perthnasol, eang, difyr a gwerthfawr yn cael eu cyflwyno ar draws yr ysgol ac o sgwrsio gyda'r disgyblion maent yn dangos dealtwriaeth, mwynhâd a brwdfrydedd yn eu dysgu. • Mae awydd ac awch y staff i arbrofi, datblygu a meddwl tu allan i'r ystafell ddosbarth wrt gynllunio, ar dir yr ysgol, o fewn y pentref ac ymhellach, a hynny yn bwrpasol wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda hyn yn cael effaith lwyddiannus ar yr addysgu a dysgu. Mae parodrwydd, awydd a mwynhâd staff wrth arbrofi gyda dulliau/syniadaethau gwahanol yn cyfoethogi'r dysgu/profiadau'r dysgwyr yn ehangu profiadau ac yn rhoi ysbryd bywiog a difyr iawn i'r tasgau a phrofiadau, sydd yn cael ei adlewyrchu yn ymagwedd a chyflawniad y disgyblion. • Gwelir o arsylwadau a chraffu fod gwybodaeth a dealltwriaeth trawsbynciol athrawon a dysgwyr yn cryfhau a dyfnhau drwy gynllunio, cyflwyno ac ymroi i dasgau tu allan i'r ystafell ddosbarth e.e. drwy ymweliadau, tasgau awyr agored, defnyddio pob ardal o dir yr ysgol a chyflwyno thasgau STEM. Cytuna'r holl staff dysgu fod hyn yn cael dylwanwad effeithiol a llwyddiannus iawn o ddatblygu sgiliau dysgwyr, ymateb i'r Pedwar Diben a thanio brwdfrydedd

	a pherthnasedd tasgau.
Blaenoriaeth 3: Datblygu ac ehangu cyfranogiad dysgwyr mewn gwahanol feysydd ac agweddau er mwyn ychwnaegu yn llwyddiannus at fywyd yr ysgol a'r gymuned	**Arfarniad** • Gwelir fod dysgwyr yn cyfrannu'n hyderus mewn amrywiol ffyrdd fywyd yr ysgol o ran rhediad o ddydd i ddydd, trefniadaeth y dosbarthiadau a thu hwnt y y gymuned. Mae Llais y Plentyn yn ganolog, creiddiol a phwysig iawn i fywyd yr ysgol • Wrth dderbyn cyfrifoldebau ychwangeol mae dysgwyr yn datblygu sgiliau, hyder, brwdfrydedd a theimlo chyfrifoldebau. Maent yn ymateb i heriau a disgybliadau yn ganmoladwy, awyddus, aeddfed a chlodwiw. • Mae derbyn cyfrifoldebebau yn datblygu disgyblion i fod yn ymwybodol o'r rhan fel dinesydd byd eang • Sgiliau cyfatrebu amrywiol (llafar, technolegol, ysgrifenedig, cyflwyno ar y wefan a wal ysgol) yn datblygu ymhelach ac ehangach o ganlyniad i'w gyfranogiadau amrywiol gyda dysgwyr yn derbyn profiadau tu hwnt i'r cwricwlwm, perthnasol i fywyd bob dydd sydd yn eu datblygu fel person crwn cyfan.
Blaenoriaeth 4: Diwiygio trefniadau asesu crynodol a ffurfiannol i ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru, a'i ddefnyddio i gynllunio camau nesaf yn eu dysgu er mwyn cefnogi ac ymestyn pob disgybl yn yr ysgol.	• System dracio newydd ar waith gan Ysgol Llanbedrog â'r drefn gadarn a hylaw wedi ei sefydlu ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Gall athrawon dosbarth yn gallu bwydo i'r system a MHO yn monitro yn rheolaidd • Holl staff wedi ymgyfarwyddo, yn deall a dilyn amserlen tracio'r ysgol yn llwyddiannus ac yn eu defnyddio yn hyderus er mwyn asesu'n grynodol chynllunio'r camau nesaf. • Trefn gyson ar draws y dalgylch ac yn trosglwyddo i'r uwchradd i sichrau cysondeb a dilyniant • Penderfynu'n ddalgylchol, yn dilyn trafodaethau proffesiynnol, i beidio defnyddio Taith 360 i asesu a chynllunio'r ffordd ymlaen gan ei fod yn feichus a ddim mor effeithiol o ran ymateb i ofynion CiG. • Gwerthoedd a buddiannau AaGD yn naturiol amlwg a gweithredol ar draws yr ysgol ac yn cael effaith ganmoladwy ar sgiliau a safonau'r holl ddysgwyr yn ogystal ag ar ddiwylliant y dosbarth, • Ymagwedd, hyfedr rhan fwyaf o'r dysgwyr yn datblygu'n dda i fod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus sy'n perchnogi eu dysgu eu hunain • Adnabyddiaeth gadarn gan yr holl staff o anghenion a chyrhaeddiad dysgwyr, dryw weithio ar lawr dosbarth a'r system dracio cynnydd, gyda hyn yn arwain at gefnogi a herio'n effeithiol. Asesu cynnydd o ddydd i ddydd yn digwydd ar lawr dosbarth ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu'r camau nesaf. • Rhan fwyaf o ddysgwyr Bl 2-6 yn ymwybodol o beth yw dysgu da a'r camau nesaf i symud eu hunain ymlaen • Trafodaethau dysgwyr/staff yn symud y dysgu yn ei flaen yn llwyddiannus a pherthnasol i bob unigolyn. • Ymateb i anghenion ar y pryd yn agor drws i'r holl ddysgwyr ddatblygu yn effeithiol ac hyderus ar eu lefel bersonol

HYFFORDDIANT STAFF

Mynychodd y staff nifer o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn yn unol â'r CDY, blaenoriaethau'r Awdurdod a'r Llywodraeth. Ceir gywbodaeth o'r holl hyfforddiant yn yr ysgol.

DATGANIAD ARIANNOL

Cynhelir cyfarfod o'r Panel Cyllid yn dymhorol ac mae'r llywodraethwyr yn adolygu polisiau yn ymwneud â chyllid yn unol â'r gofynion. Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.

*** Gwariant perthnasol o gyfrifon terfynol yr ysgol am 2022-23**

Pennawd	£
Cynnal a Chadw (cyfrifoldebau hanesyddol)	12,260
Cynnal a Chadw (gwasanaeth eiddo)	1,696
Trydan	6,870
Nwy	2,090
Dŵr	2,170
Contract Glanhau	12,150
Cynnal Tiroedd (Gwalch)	500
Offer Ymladd Tân	100
Trethi	5,300
Lwfans y Pen (offer, llyfrau ac ati)	9,000
Dodrefn	110
Post	60
Ffôn	800
Pyllau Nofio a chwaraeon	5,000
Gwasanaeth Cerdd	2,800
Gwasanaeth Llyfrgell	95
Gwasnanaeth Archifau	374
Cefnogaeth Dechnolegol	1,452
Swyddfa Ardal	5,703

Arian wrth gefn £67,523 (ar gyfer diogelu a chynnal staffio)

*** Costau teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr**- £0

*** Cronfa'r ysgol**: Hon yw'r gronfa ar gyfer gwariant bob dydd. I'r gronfa hon mae arain teithiau addysgol, gwersi offerynnol ac ati yn mynd. Mae cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ac a dalwyd ohoni yn sylweddol. Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn flynyddol gan gyfrifydd allanol, yn unol â'r gofynion ac mae manylion ar gael yn yr ysgol pe dymunir eu gweld. £11,979.15 o arian mewn llaw 1af Ebrill 2023. (Atodiad 1)

*** Rhoddion i'r ysgol**: Trefnwyd ambell ddigwyddiadau casglu arian ar gyfer yr Ysgol gan y Cyfeillion. Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae'r ysgol a phob plentyn sydd ynddi wedi elwa'n fawr o'r cyfraniadau hyn. (Atodiad 2).

LLAWLYFR YSGOL

Mae'r Llawlyfr yn cael ei ddiweddaru yn flynyddol. Mae copiau o'r llawlyfr ar gael o'r ysgol ac ar y wefan. Mae wedi ei addasu i gydfynd â gofynion Cwricwlwm i Gymru.

GWYBODAETH AM BERFFORMIAD

Trafodwyd cynnydd yn y cyfarfodydd rhieni ac mewn adroddiad diwedd blwyddyn.

TARGEDAU PERFFORMIAD

Gosodir targedau unigol, heriol, penodol i bob plentyn drwy'r ysgol i ddatblygu pawb fel unigolion yn ôl eu gallu personol, cymdeithasol, emosiynol ac addysgol.

Er mwyn ymestyn pob unigolyn i fod yn hyderus a chyrraedd ei lawn botensial, caiff rhai disgyblion eu targedu mewn agweddau y maent angen hwb neu her bellach ynddo; e.e mewn Llythrennedd, Rhifedd a

Lles. Gall hyn ddigwydd fel sylw, cymorth neu waith gwahaniaethol o fewn y dosbarth neu mewn grŵp bychan neu'n unigol gyda chymhorthydd tu allan i'r docbarth. Caiff disgyblion, sydd ar gofrestr ADYaCh yr ysgol, sylw neu dargedau gan arbenigwyr allanol sydd yn ymweld â'r ysgol a byddwn yn cyd-weithio arnynt yn yr ysgol.

CYFRANOGIAD PLANT

Mae plant yr ysgol yn cyfrannu eu syniadau yn eang i fywyd a threfn yr ysgol a hynny drwy amrywiol ffyrdd; trafodaethau, holiaduron, Cyngor Ysgol, Grŵp Gwyrdd, Grŵp Iach, Swyddogion Diegelwch ac ati, a thrafodir eu cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr yn achlysurol.

Rhai o'u cyfraniadau yn 2022-23 oedd trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da, trefnu a chynnal gemau amser chwarae a chlybiau ôl-ysgol, gwirio agweddau o ddiogelwch yn yr ysgol a threfnu digwyddiadau ac ymweliadau.

Cyfrannodd y disgyblion hefyd i gynllunio gwaith y dosbarth drwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent eu dysgu a syniadau am sut y gellir gwneud hynny.

ADEILADAU

Mae pob rhan o'r ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Cynhelir ymarfer larwm tân pob hanner tymor. Pob hanner tymor mae'r Pennaeth, fel Rheolwr Safle yn llenwi ffurflen Gwiriad Safle, gyda'r holl staff a disgyblion yn cyfrannu atynt er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Yn ogystal, mae'r safle yn cael ei wirio yn barhaus o ddydd i ddydd. Penodwyd disgyblion o ddosbarth Tir y Cwmwd yn Swyddogion Diogelwch am y flwyddyn.

Tymor yr Hydref

- Newid gwresogydd Ystafell Staff
- Gosod sgrin ar wal y neuadd
- Gosod bleinds yn y Neuadd

Tymor y Gwanwyn

- Sortio system gwresogi Dosbarth Carreg y Defaid

Tymor yr haf

- Aiblymio'r ystafell staff gael dŵr poeth
- Cyfarfodydd cynllunio ar gyfer addasu'r gegin
- Gosod canllaw grisiau wrth y brif fynedfa

Gwyliau'r Haf

- Cegin newydd

Yn ychwnaegol, cwblhawyd profion arferol blynyddol megis:

- Owen+Palmer –profion trydanol PAT (blynyddol- tymor y gwanwyn)
- Awdurdod- Profi dŵr a legionella (misol)
- AER- Profi gwresogyddion (blynyddol)
- Zurich- archwilio'r parc (blynyddol- tymor yr hydref)
- Gwalch- cynnal tir (cytundeb am y flwyddyn)
- Cwmni Tân Llŷn- Profi offer a systemau tân (blynyddol- tymor yr hydref)
- Sportfix- archwilio offer chwaraeon (blynyddol)
- Snowdonia Fire- profion larwm tân
- 4C- profion larwm lladron (blynyddol- tymor yr haf)
- Adran Eiddo- Archwiliad Tân (blynyddol- tymor yr haf)
- MHO, Swyddogion Diogelwch a'r Panel Adeiladu - Arolwg cyflwr adeiladau (bob hanner tymor)

Toiledau'r ysgol

Mae toiledau pwrpasol, cymhareb tua 1:10, gan gynnwys toiledau 'bach' i blant y M-Bl 2 a thoiled addas i'r anabl. Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân i blant Bl 3-6. Mae toiledau'r staff ar gael i defnydd plant fel bo'r angen. Caiff y toiledau eu glanhau yn ddyddiol.

CWRICWLWM

Fel pob ysgol arall mae'r ysgol yn dilyn Cwricwlwm i Gymru y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac agweddau o'r Fframwaith Sgiliau Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol – mae copïau ar gael o'r ysgol neu oddi ar ein gwefan. Rydym hefyd yn dilyn cwricwlwm Webster-Stratton i gyflwyno strategaethau ymddygiad a hunan-ddisgyblaeth. Mae hyn yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd.

POLISIAU A STRATEGAETHAU

Adolygwyd a mabwysiadwyd nifer o bolisïau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisïau ar gael yn yr ysgol a rhai ar wefan yr ysgol.

POLISI ADYaCh

Amcan yr ysgol yw adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn fuan, er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth a chynhaliaeth orau, mwyaf cynhwysfawr ar eu gyfer pob disgybl gan helpu pawb i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn flaenoriaeth gan y Llywodraethwyr. I'r perwyl hwn mae targedau a Chynlluniau Datblygu Unigol manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r plant a'r rhieni.

- Cydlynydd ADY Ysgol Llanbedrog - Manon Haf Owen
- Llywodraethwr dynodedig ADY– Miriam Grant

Disgyblion ag anableddau

Yn unol â pholisi'r Awdurdod a gweledigaeth yr ysgol, mae mynediad llawn i ddisgyblion ag anabledd. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fyddai disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

CATEGORI IAITH

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol ac rydym yn dilyn Polisi Iaith Gwynedd. Bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cyrraedd yr ysgol yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.

Cymraeg yw prif iaith gyfathrebol yr ysgol. Disgwylir, yn unol â nôd Siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd, i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard, ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Enillodd yr ysgol wobr Aur y Siarter Iaith.

Yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol o flwyddyn 3 ymlaen. Ein nôd yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-Gymraeg yn dod i'r ysgol yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn naturiol o fewn yr ysgol. Os bydd hwyrddyfodiaid neu blant Blwyddyn 2 ac uwch fyddai'n elwa o loywi iaith neu godi hyder byddant yn mynd i'r Unedau Trochi lleol, Llangybi neu Borthmadog, am dymor. Mynychodd 2 ddisgybl Uned Drochi Llangybi yn 2022-23.

CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL

Cyd-weithiodd yr ysgol gydag ysgolion y dalgylch a thu hwnt mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgwricwlaidd megis gweithgareddau chwaraeon a chlybiau Dalgylch, yn sgil methu gwneud am sbel oherwydd cyfyngiadau Covid. Credwn ei bod yn bwysig fod y plant yn cael amrywiol brofiadau ar ac oddi ar dir yr ysgol ac yn creu cyswllt gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd er mwyn cyfoethogi eu haddysg. Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yn Adroddiadau'r Pennaeth a chofnodion llawn y Llywodraethwyr, sydd ar gael o'r ysgol.

Cawsom weithdai amrywiol wyneb yn wyneb yn yr ysgol gan gynnwys; gweithdy archeoleg yn y Plas (Dosbarth Tir y Cwmwd), gweithdai diogewlch gan PC Rhannon, Gwawr o'r Gwasanaeth Tân a Safer Internet gan Google. Cynhaliwyd sesiyanu clocsio gyda Tudur Phillips, gweithdai llenyddiaeth a barddoniaeth gyda Anni Llŷn, Casi Wyn, Mared Llywelyn, gweithdai creu ffilm gyda Robin Williams, gweithdai celf gyda'r artistiaid Zoe Lewthwaite, Catrin Williams, Elin Huws, gweithdai enwau lleol a hanes lleol gyda Mei Mac ac

Iwan Hughes gweithdy bîtboscio Ed Holden, gweithdy drama gyda'r actors Rhian Cadwaladr, 5 wythnos o sesiynau Dawns i Bawb i'r Ysgol gyfan.

Cynhaliwyd ymweliadau amrywiol, o rai preswyl i Gaerdydd (Bl 6), Llangrannog (Bl 5), Glanllyn (Bl 3-4), ac ymweliadau undydd neu lai. Rhai enghreifftiau yw ymwleiadau Plas yn Rhiw (Bl 1a2), Tryweryn (Dosbarth Tir y Cwmwd), Y Winllan (Dosbarth y Winllan), Mynydd Tir y Cwmwd a'r Winllan (Dosbarth Tir y Cwmwd), a thrip Ysgol gyfan i Borthdinllaen i'r Ysgol gyfan i gloi'r flwyddyn addysgol.

Trwy gydol y flwyddyn gefnogom elusennau a busnesau lleol, e.e. Plant Mewn Angen, Marie Curie, Achub y Plant, MacMillan, T4U, Diwrnod Trwynau Coch, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Diwrnod Cerddoriaeth Cymru, Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr. Y Cyngor Ysgol drefnodd y digwyddiadau.

Bu 2 o fyfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor ar brofiad gwaith.

NODAU A CHYFLAWNIADAU CHWARAEON

Profodd y disgyblion o nifer o weithgareddau chwaraeon a gwnaethpwyd defnydd o'r iard, y cae, y Neuadd, Byw yn Iach Dwyfor a Chlwb Chwaraeon Pwllheli ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chwaraeon arferol.

Mrs Catrin Hall ein cyd-gysylltydd Addysg Gorfforol ac yn ei habsenoldeb roedd Miss Sera Jones, yr ysgol ac mae darpariaeth eang yn cael ei gynnig i'r plant o fewn yr ysgol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6. Cafodd y plant hynaf, dosbarthiadau Ty'n Tywyn a Tir y Cwmwd, gyfleoedd i cystadlu mewn twrnamentau rygbi, hoci, criced a phêl rwyd. Bont hefyd mewn gala nofio a chystadlaethau athletau sirol a dalgylchol mewn amrywiol leoliadau.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 3a4 brofiadau awyr agored eang ar gwrs preswyl yn Glanllyn a Blwydd yn 5 yn Llangrannog.

Mae'r ysgol yn hybu'r llu o glybiau chwaraeon lleol, gyda unigolion o'r clybiau i'r ysgol i gynnig sesiynau blasu yn achlysurol.

BWYTA'N IACH

Dilyna'r ysgol ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â Byw'n Iach. Annogwyd plant i ddod â ffrwyth hefo nhw o gartref i'w fwyta ganol y bore, ac i yfed dŵr a'r ffynnon ddŵr unrhyw adeg o'r dydd. Ni chaniatwyd bwyd a diodydd sydd ddim yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth.

I GLOI

Hoffai'r Corff Llywodraethol a'r staff ddiolch yn fawr iawn am gymorth parod y rhieni gyda phob trefniant yn ystod y flwyddyn. Yn y gorffennol mae'r Cyfeillion wedi bod yn cyfrannu'n yn helaeth at fywyd yr ysgol drwy drefnu digwyddiadau i godi arian. Gobeithir gallu ailgynnau hyn yn 2023-24. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn elwa yn fawr o'u cyfraniadau. Gwerthfawrogwn fawr y berthynas iach sydd rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned.

GOFYN AM GYFARFOD (Atodiad 3)

DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2023-24

DYDDIADAU TYMOR:

1 Medi - 22 Rhagfyr
8 Ionawr – 22 Mawrth
8 Ebrill- 19 Gorffennaf

GWYLIAU:

30 Hydref -3 Tachwedd (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr - 5 Ionawr (Gwyliau'r Nadolig)
12-16 Chwefror (Hanner-Tymor)
25 Mawrth- 5 Ebrill (Gwyliau'r Pasg)
6 Mai (Calan Mai)
27-31 Mai (Hanner-Tymor)
22 Gorffennaf - 30 Awst (Gwyliau'r Haf)

Bydd dyddiau o hyfforddiant staff yn ychwanegol i'r uchod: 1+4/9/23, 24/11/23, 8/4/23, 14/6/23.

Atodiad 1

DATGANIAD CYFRIFON CRONFA YSGOL LLANBEDROG

BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 AWST 2023

1 Medi 2022- £1,618.69 1 Medi 2023- £1,368.49

Derbyniadau-£12,385.43 **Taliadau-£11,016.94**

Atodiad 2

Cyfeillion Ysgol Llanbedrog

Balans agoriadol £3,068.54 (6/8/2023)

Dim taliadau i mewn

Talu allan - £16.08 ffioedd am gynnal y cyfrif

Balans £3,057.46 (8/9/2023) Cyfrif wedi cau 8/9/2023.

Arian wedi drosglwyddo i gyfrif Cronfa Ysgol Llanbedrog er mwyn dechrau cyrif newydd.